

Bywgraffiad y Siaradwr

Julie Morgan, AC

Cafodd Julie Morgan ei geni yng Nghaerdydd a'i haddysgu yn Ysgol Gynradd Dinas Powys, Howell's School, King's College London, University of Manchester a Phrifysgol Caerdydd. Bu'n weithiwr cymdeithasol ac yn rheolwr yng Nghynghorau Sir De a Gorllewin Morgannwg cyn dod yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol yn Barnardos. Bu'n gynghorydd yng Nghyngor Sir De Morgannwg hyd nes iddi gael ei hethol yn AS dros Ogledd Caerdydd yn 1997.

Yn ystod ei hamser yn San Steffan, cyflwynodd Julie 3 Bil Aelod Preifat - un ynghylch gwahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus, un ynghylch caniatáu'r bleidlais yn 16 oed, ac un ynghylch atal pobl ifanc dan 18 oed rhag defnyddio gwelyau haul a ddaeth i rym yn 2010.

Cafodd Julie ei hethol yn Aelod Cynulliad dros Ogledd Caerdydd yn 2011 a bu'n aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Amgylchedd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, yn ogystal â chadeirio 7 grŵp trawsbleidiol yn ymdrin â meysydd megis plant, canser, a nyrsio a bydwreigiaeth. Yn y Pumed Cynulliad, roedd Julie yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Ar 13 Rhagfyr 2018, penodwyd Julie yn Ddirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynghorydd Jane Tremlett

Aelod Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Jane Tremlett yw Aelod Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd; gyda chyfrifoldeb dros Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; Gofal Preswyl; Gofal Cartref; Anableddau Dysgu; Iechyd Meddwl; Cysylltu/Cydweithredu/Integreiddio â'r GIG. Mae Jane hefyd yn Hyrwyddwr Gofalwyr Sir Gaerfyrddin, Hyrwyddwr 50+, Llysgennad Anabledd a Hyrwyddwr Gofal Dementia. Mae hi'n Gadeirydd ar Fwrdd Gweithredu yn erbyn Dementia Sir Gaerfyrddin ac ar Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru.

Mae hi'n gyn-Gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin; cyn-Gadeirydd Interim Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda (Ardal Sir Gaerfyrddin – 2011/12) a Chyd-bwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda. Rhwng 2005-2015 Jane oedd yr aelod Awdurdod Lleol ar Banel Mabwysiadu Gorllewin Cymru yn ogystal â'r Panel Maethu. Bu'n Ymddiriedolwr gyda Plant yng Nghymru ac yn aelod o'r Cyngor Polisi. Yn flaenorol bu'n gweithio ym meysydd newyddiaduraeth, teledu a chysylltiadau cyhoeddus. Mae Jane wedi bod yn cynrychioli Ward Talacharn ar Gyngor Sir Caerfyrddin ers 2004.

Martyn Palfreman

Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Ymgymrodd Martyn â'i rôl yn cefnogi cydweithredu rhanbarthol yng Ngorllewin Cymru yn 2013. Yn ystod y 3 mlynedd diwethaf, mae Martyn wedi arwain y gwaith o sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac wedi rhoi cymorth a chynghor strategol i bartneriaid ynghylch datblygu a chyflawni'r rhaglen newid ac integreiddio, gan gynnwys ystod eang o fentrau wedi'u cefnogi drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Yn ddiweddar, derbyniodd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ddyraniad o £12m gan Gronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru i ddarparu tair rhaglen uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ofal rhagweithiol trwy gymorth technoleg, gweithio integredig mewn ardal leol a gwella cymorth ataliol a chapasiti mewn cymunedau lleol. Cyn ymuno â'r Bartneriaeth, treuliodd Martyn 11 mlynedd yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac yn ddiweddar yn Bennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Wrth gyflawni'r rôl hon, roedd Martyn yn arwain y gwaith o ddatblygu polisi gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer llywodraeth leol ac roedd ganddo gyfrifoldeb strategol dros yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC).

Roedd gyrfa flaenorol Martyn ym maes Llywodraeth Leol yn cynnwys amryw o rolau polisi a pherfformiad corfforaethol yn Ne-ddwyrain Lloegr, ar y dechrau, darparu cymorth i gynghorau ledled Cymru ynghylch gweithredu strwythurau gwleidyddol newydd a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. gan gynnwys gweithio yn Bennaeth Gwerth Gorau ac Adolygu Perfformiad ar gyfer Bwrdeistref Lambeth yn Llundain, o 2000 i 2002.

Mark Hodder

hwylusydd seicoleg a hyfforddwr cadarnhaol

Mae Mark Hodder yn arbenigwr datblygu arwain a dysgu annibynnol sy'n rhannu syniadau diddorol i ysbrydoli ac ysgogi. Nod pob sesiwn gan Mark yw dod â'r ymchwil diweddaraf o ran seicoleg y gweithle a niwrowyddoniaeth yn fyw a rhoi ystod o syniadau ymarferol sefydledig i gyfranogwyr y gallant eu defnyddio ar unwaith. Mae Mark yn gweithio gyda thimau ledled y byd i ddarparu dau o'r cynhyrchion mwyaf blaengar yn y byd o ran ysgogi ac ymgysylltu, 'Dan Pink - Drive: The surprising truth about what motivates us' a David Marquet - 'Turn the Ship Around developing intent-based leadership'. Prif angerdd Mark yw seicoleg gadarnhaol a chreu gweithleoedd sy'n llwyddiannus ac sy'n rhoi boddhad.

Ym mis Gorffennaf 2018, helpodd Mark i greu sioe deledu 2 ran ar ITV Wales, *How to be Happy* i rannu'r syniadau hyn â chynulleidfia ehangach. Ar ôl gyrfa RAF gynnar, aeth Mark ymlaen i astudio arweinyddiaeth, seicoleg a niwrowyddoniaeth a sut y gellid defnyddio'r syniadau hyn yn ymarferol yn y gweithle. Mae gan Mark dros 20 mlynedd o brofiad o hyfforddi a datblygu ar draws ystod eang o sefydliadau gan gynnwys busnes, y GIG, y llywodraeth ac amddiffyn. Defnyddir sesiynau rhyngweithiol Mark ar nifer o gyrsiau arwain a datblygu personol yn y gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer staff ar bob lefel.

Rebecca Jones

Rheolwr Rhaglen Gweithlu Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Mae Rebecca yn gweithio fel Rheolwr Rhaglen Gweithlu Rhanbarthol ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ac mae ganddi gefndir mewn Dysgu a Datblygu Corfforaethol ac Adnoddau Dynol gweithredol mewn llywodraeth leol ac ieuchyd. Mewn cyfnod blaenorol y tu hwnt i'r sector cyhoeddus bu'n gweithio yn maes technoleg ar gyfer cwmnïau rhyngwladol mawr megis IBM ac NTL.

Fel hyfforddwr cymwys ac ymarferwr MBTI (Dangosydd Math Myers-Briggs), mae gan Rebecca ddiddordeb arbennig mewn ymddygiad sefydliadol a'r ffyrdd creadigol y gellir goresgyn heriau'r dyfodol. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn niwrowyddoniaeth hyfforddi a seicoleg gadarnhaol a'r ymchwil sy'n tanategu theori fodern.

Lisa Davies

Pennaeth

Swyddfa'r Rhaglen Drawsnewid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Lisa wedi bod yn gweithio ar y Rhaglen Drawsnewid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ganolbwyntio ar gefnogi prosesau ymgysylltu ac ymgynghori ar draws y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol, gan arwain at gyhoeddi strategaeth y Bwrdd Iechyd sef "*Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda*." Cymeradwywyd y strategaeth ieuchyd a gofal ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer darparu gofal sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn garedig. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar weithredu model cymdeithasol integredig o ieuchyd. Bydd yn newid y system gyfan i wireddu dyheadau o ran ieuchyd y boblogaeth, ac mae'n nodi newid sylfaenol o'r pwyslais presennol ar ysbytai i bwyslais ar weithio mewn partneriaeth â phobl a chymunedau i gadw pobl yn iach yn eu cartrefi eu hunain neu'n agos iddynt. Yn ddiweddar mae Lisa wedi dechrau rôl fel Pennaeth Swyddfa'r Rhaglen Drawsnewid, a grëwyd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth drwy bortffolio o raglenni ar draws cymunedau, ysbytai ac ieuchyd meddwl ac anableddau dysgu.

Mae Lisa wedi gweithio yn y sector cyhoeddus am 15 mlynedd, yn bennaf i Gyngor Sir Penfro mewn ystod o rolau strategol ar draws gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac adrannau corfforaethol a phartneriaethau. Mae hi wedi rheoli amrywiaeth o brosiectau gan weithio'n helaeth ar draws nifer o sefydliadau. Yn dilyn cyfnod byr gyda Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru mewn rôl ranbarthol ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Cyngor Sir Penfro a'r Bwrdd Iechyd, dechreuodd Lisa weithio i Hywel Dda ym mis Tachwedd 2017. Mae Lisa yn byw ar arfordir gogledd-orllewin Sir Benfro ac mae hi'n mwynhau treulio amser yn yr awyr agored gyda'i gŵr a'i merch 7 oed.

Phil Pike

Rheolwr Tîm, Addysg a Phlant Cyngor Sir Gaerfyrddin

Enillodd Phil ei gymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn 1992 a chafodd ei swydd gyntaf fel gweithiwr cymdeithasol ym mis Mehefin yr un flwyddyn. Wedi gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol ac Uwch-ymarferydd yn Nhîm Gofal Plant y Dwyrain, Llanelli am wyth mlynedd, yn 2000 cafodd ei benodi yn Rheolwr Tîm Gofal Plant Dinefwr, Rhydaman, lle'r oedd yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau statudol allweddol. Yn 2010, gweithiodd Phil gyda'r Prosiect Lleihau Niwed (prosiect ar y cyd â'r Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf) a bu'n cadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant yn ogystal â chynrychioli Gwasanaethau Plant yn MAPPA. Mae Phil wedi bod yn rheoli'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ers ei lansiad ranbarthol yn 2012.

Chwaraeodd Phil ran allweddol yn y gwaith o ddatblygu Signs of Safety yn Sir Gaerfyrddin ychydig o flynyddoedd yn ôl ac aeth ati i ddatblygu Gweithdai Briffio ac Ymarfer ar gyfer yr

holl asiantaethau partner allweddol. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda dau Dîm Asesu Gofal Plant i sefydlu Signs of Safety ymhellach yn ogystal â chadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant, ac mae ganddo gyfrifoldeb o reoli'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd a'r Gwasanaeth Cyswllt.

Julia Wilkinson **Arweiniol trawsnewid**

Mae Julia Wilkinson yn Arweinydd Trawsnewid i Sir Gaerfyrddin, ac yn flaenorol bu'n Rheolwr Ardal yn y Gwasanaeth Integredig. Mae hi wedi gweithio yn Sir Gaerfyrddin am y 4 blynedd diwethaf ar draws gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn, anableddau corfforol a namau synhwyrdd yn ogystal ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl. Yn flaenorol bu'n gweithio fel ymgynghorydd, gan arbenigo mewn eiriolaeth, lle bu'n gweithio i'r Adran Iechyd yn hyfforddi Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Cyn hynny, roedd Julia yn Ddirprwy Bennaeth Gwasanaeth ar gyfer Bwrdeistref Llundain, gan arbenigo mewn integreiddio a chynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Angela Phillips **Rheolwr Rhaglen a Newid**

Ar hyn o bryd mae Angela yn gweithio ym Mhartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru fel Rheolwr Rhaglen a Newid, gan arwain ar waith ynghylch comisiynu integredig, ataliadau a chymunedau cysylltiedig. Cyn hyn, bu Angela yn gweithio yn Sir Benfro am 10 mlynedd yn adran Gwella Gofal Corfforaethol a Chymdeithasol yr Awdurdod Lleol a 10 mlynedd cyn hynny, bu hi'n gweithio ym meysydd cyllid, grantiau a datblygu yn y trydydd sector. Ar hyn o bryd mae Angela yn arwain ar raglen Creu Cysylltiadau i Bawb ledled y Rhanbarth o fewn Gorllewin Cymru Iachach, ac yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i drawsnewid gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Gorllewin Cymru Iachach ar lefel leol.

Fran O'Hara **MD yn gyfarwyddwr creadigol dylunio Llydaweg**

Fran O'Hara yw Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Creadigol *Scarlet Design*, sef ymgynghoriaeth meddwl strategol, dylunio, hyfforddi a hwyluso gweledol. Bu Fran yn gweithio i Disney yn Hong Kong a Los Angeles am 4 blynedd gan arwain at fyd o adrodd storïau strategol.

Fel arbenigwr yn y diwydiant sydd ag 20+ o flynyddoedd o brofiad, mae'n creu offer gweledol sy'n trawsnewid y ffordd y mae timau a sefydliadau yn gweithio, a sut mae storïau yn cael eu diffinio a'u cyfleu. Mae Fran yn arbenigo mewn hwyluso ac ymgysylltu gan ddefnyddio methodoleg weledol i helpu cleientiaid i adrodd eu storïau – o ddulliau â llaw i ddulliau digidol, ac o raddfa fach i anferth. Mae wedi gweithio gyda sefydliadau megis Academi Wales, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Dŵr Cymru, GWR, Barclays a Vodafone.

Gan fanteisio ar gymwysterau ôl-raddedig mewn addysgu a hyfforddi, a channoedd o bennau ysgrifennu, mae Fran yn mynd ati i greu cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth, hyder a sgiliau o ran adrodd storïau gweledol.

Anna Bird

Pennaeth Partneriaethau Strategol, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Ymunodd Anna â'r GIG yn 1990 fel Rheolwr Arlwygo Cynorthwyol yn Ysbyty Dewi Sant, Caerfyrddin. Ar ôl cymryd rhan yn rhaglen Hyfforddi Graddedigion GIG Cymru (1991-1993), roedd rolau Anna yn cynnwys gweithio gyda phractisiau meddygon teulu sy'n dal cronfeydd, comisiynu strategol o ran gwasanaethau menywod a phlant a chydgyssylltu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol.

Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf mae Anna wedi bod yn gweithio mewn rolau sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth, cydweithio ac integreiddio. Mae Anna yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel Pennaeth Partneriaethau Strategol, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Cat Hooton

Gweithiwr Prosiect Blynyddoedd Addysg Gofalwyr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gofal Croesffyrdd Sir Gâr

Mae'r prosiect Blynyddoedd Addysg Gofalwyr yn cefnogi gofalwyr ifanc rhwng 5 a 18 oed yn Sir Gaerfyrddin. Mae Cat yn gweithio gyda thua 150 o blant yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnig cymorth yn y cartref, yn y gymuned ac yn yr ysgol i'w helpu i ymdopi â'u rôl ofalu. Mae'n gweithio un-i-un gyda phlant a'r rhai yn eu harddegau, gan roi cyfle iddynt siarad am eu sefyllfaoedd a phrosesu hyn. Mae Cat hefyd yn cynnal pedwar clwb gofalwyr ifanc ledled y Sir er mwyn i ofalwyr ifanc gyfarfod a chymdeithasu, a chael hoe o'u rôl ofalu yng nghwmni eu cyfoedion. Cynhelir gwyliau seibiant diwrnod llawn bob 6-8 wythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgol, gan roi cyfle i'r gofalwyr ifanc gael profiad o weithgareddau arferol plentyndod, fel mynd i'r sw.

Roedd Cat yn ofalwr ifanc ei hun o 5 i 12 oed, sy'n rhoi dealltwriaeth arbennig iddi o brofiadau'r bobl ifanc yn y prosiect.

Rhian Bennett

Rheolwr comisiynu gofal cymdeithasol a Thai

Dechreuodd Rhian Bennett ar ei gyrfa ym maes llywodraeth leol yn 2006 drwy Raglen Genedlaethol Datblygu Graddedigion, sef cynllun cenedlaethol yn Lloegr i ddenu graddedigion i faes llywodraeth leol. Yn dilyn cyfres o leoliadau gyda Chyngor Wiltshire ac astudio yn Ysgol Fusnes Warwick, sicrhodd Rhian rôl gomisiynu yn Wiltshire yn Arweinydd y Rhaglen i Ofalwyr ym maes gofal cymdeithasol. Dilynwyd hyn gan rôl fel yr Arweinydd Comisiynu Dementia, ac yna symudodd i Gyngor Sir Gwlad yr Haf yn Uwch-swyddog Comisiynu gan arwain y ddarpariaeth iechyd meddwl. Yn ystod y swydd hon, bu Rhian yn Uwch-Swyddog Cyfrifol i drawsnewid darpariaeth o ran Gwaith Cymdeithasol Iechyd Meddwl, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sector iechyd a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â phobl sydd wedi byw'r profiad, gan arwain at seilwaith newydd o wasanaethau sydd wedi gwella mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer unigolion sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael. Ym mis Mawrth 2018, penodwyd Rhian yn Rheolwr Comisiynu yng Nghyngor Sir Penfro ar gyfer gofal cymdeithasol ac mae'n gyfrifol am nifer o wasanaethau yn Sir Benfro, yn ogystal â gweithio ar lefel ranbarthol gydag awdurdodau lleol cyfagos a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Susan Kidd

Arweiniad y rhaglen cydnerthedd a lles gofalwyr

Mae Susan yn rhan o dîm Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion ac mae'n arwain cam diweddaraf Rhaglen Cydnerthedd a Llesiant Gofalwyr yng Ngheredigion. Mae Susan wedi bod yn rhan o'r tîm am fwy na dwy flynedd ac mae'n helpu i redeg y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, cydlynu Cylchgrawn y Gofalwyr tair gwaith y flwyddyn a datblygu'r wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael i Ofalwyr ar draws y sir.

Catherine Moyle

Swyddog cymorth a datblygu uned gofalwyr

Catherine yw Swyddog Cefnogi a Datblygu Uned y Gofalwyr ac mae'n hyfforddwr ym maes Cydnerthedd a Llesiant Gofalwyr. Mae'n arwain y gwaith o gydlynu digwyddiadau a hyfforddiant i ofalwyr ynghyd â hwyluso Fforwm Gofalwyr Ceredigion. Hefyd, mae'n gyfrifol am ddatblygu partneriaethau, meithrin perthynas â'r gymuned ac ystyried cyfleoedd am brosiectau. Cyn ymuno ag Uned y Gofalwyr bedair blynedd yn ôl, bu Catherine yn gweithio yn y sector breifat, y trydydd sector a'r sector gyhoeddus gan weithio yn y meysydd canlynol: gwaith ieuenctid a hyfforddiant, camddefnyddio sylweddau, mentora cymheiriaid, rheoli gwirfoddolwyr ac ymchwil cymdeithasol. Mae gan Catherine ddiddordeb mawr mewn mentrau cymdeithasol, datblygu cymunedol, rheoli newid a chyfleoedd cyfartal ac mae hi wrth ei bodd yn grymuso pobl o bob oed.

Y Dream Team

Angie Edwards

Cadeirydd Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, Angie hi'n gweithio'n helaeth gyda'r Bwrdd Iechyd i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl i gael y driniaeth a'r cymorth iechyd cywir. Mae hi'n hwyluso sesiynau hyfforddi ar gyfathrebu a Thaith y Claf i staff rheng flaen y Bwrdd Iechyd. Mae hi'n gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill megis Sefydliad Paul Ridd.

Levi Owen

Levi hi wedi gweithio i Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin am bron i ddwy flynedd gyda chyfrifoldeb am gefnogi grwpiau Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin. Mae hi hefyd yn ymwneud â darn o waith ymchwil gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch pobl ag anawsterau dysgu'n dod yn hunangyflogedig. Mae Levi hefyd yn Llysgennad ar gyfer y prosiect Engage2Change sy'n helpu pobl i gael gwaith cyflogedig.

Sarah Phillips

Sarah wedi gweithio i Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin am 12 mlynedd. Hi sy'n gyfrifol am ochr datblygu busnes yr asiantaeth.

James Dash

Hyrwyddwr Anableddau Dysgu

Gweithiais i Murco am 15 mlynedd mewn swydd weinyddol. Yna dechreuais weithio i gwmni teledu rhyngrwyd yn llunio amserlenni ar eu cyfer. Rwyf yn Hyrwyddwr Anableddau Dysgu ar gyfer Sir Benfro lle rwyf yn gadeirydd ar y *Dream Team* ac rwyf hefyd yn Gyd-gadeirydd ar

Grŵp Rhaglen anabledd dysgu ac yn helpu i gynnal bob yn ail gyfarfod ar gyfer LDPG. Rwyf hefyd yn gweithio gydag Easy Read i wneud yn siŵr bod popeth yn hawdd ei ddeall.

James Tyler

James Ymddiriedolwr ac yn Gadeirydd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, yn un o sylfaenwyr y *Dream Team*, ac yn Fabolgampwr Olympaidd Arbennig sydd wedi ennill Medal Aur.

Jenny Wombell

Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Jenny yw Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Ngorllewin Cymru. Cynhelir y Gwasanaeth ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Awdurdod Lleol Ceredigion. Mae Jenny wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i sefydlu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru ac yn parhau i wneud hynny wrth i'r gwasanaeth gael ei weithredu. Mae Jenny yn Therapydd Iaith a Lleferydd cofrestredig a chyn ymuno â thîm Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru, bu'n gweithio fel Therapydd Iaith a Lleferydd yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac awtistiaeth yn ogystal â grymuso eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae Jenny yn angerddol am godi ymwybyddiaeth ynghylch awtistiaeth a gwella sgiliau pobl eraill er mwyn gwella bywydau pobl awtistig yn eu cymunedau.